**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 27ain Mawrth 2006 |
| ADRODDIAD GAN: | **Paul Claydon**<br>**PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL (CYFLWYNO'R GWASANAETHAU)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi'r diweddaraf i'r aelodau am hynt sefydlu Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA) yng Ngogledd Cymru. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r hynt hyd yn hyn wrth sefydlu a datblygu'r Gymdeithas, ac yn cyfeirio at yr hyn fydd angen ei ystyried yn y dyfodol.

2. **Y CEFNDIR**

2.1 Menter Diogelwch Tân Cymunedol yw Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA), pryd y bydd Gwasanaethau unigol yn ymgysylltu â phobl ifanc mewn rhyw ardal er mwyn cyfleu ethos cadarnhaol y gwasanaeth tân ac achub. Maent yn gwneud hyn trwy gynorthwyo pobl ifanc i ddod yn fwy ymwybodol o'u rhan nhw mewn cymdeithas, a'u hysbrydoli i ddod yn well dinasyddion.

2.2 Ymhlith bwriadau'r Gymdeithas mae gwella diogelwch cymunedol a gostwng nifer y tanau y gellir eu hosgoi, yr anafiadau oherwydd tân, y galwadau ffug, a'r ymosodiadau ar ddiffoddwyr tân. Gwneir hyn trwy hyfforddi ac addysgu pobl ifanc. Mae'r bwriadau hyn yn gyson â strategaethau tymor hir yr Awdurdod Tân ac Achub fel y maent yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg.

2.3 Gyda chefnogaeth yr Awdurdod Tân ac Achub, cafodd y Gymdeithas ei sefydlu gyntaf yng Ngogledd Cymru yn 1997, pan sefydlwyd cangen yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

2.4 I ddechrau, roedd cyllid ar gyfer gweithgareddau'r gangen yn dod trwy gyfraniadau gan y cyhoedd, a'r arian a godid gan wirfoddolwyr y rhaglen. Darparodd yr arian hwn am wisg elfennol iawn.

2.5 Hen offer wedi dod i ddiwedd eu hoes yn y Gwasanaeth roedd Gymdeithas yn ei ddefnyddio, hen ond defnyddiol. O ganlyniad, roedd y gwahanol ganghennau'n wahanol o ran gwisg ac offer.

2.6 Ym Medi 2002, cymeradwyodd yr Awdurdod Tân y gwariant yn y dyfodol ar gyfer sefydlu canghennau eraill, er mwyn cael cysondeb ac er mwyn sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch priodol ac effeithiol yn cael eu cyrraedd a'u cynnal ym mhob cangen.

2. **CEFNDIR** *(parhad)*

2.7 Anogir y canghennau i godi tua £500 yn lleol, i gyd-fynd a'r £500 a roddir iddynt o'r gyllideb. Mae hyn yn fodd i'r canghennau ddechrau ar weithgareddau a digwyddiadau, ac yn eu gosod ar sylfaen dda i recriwtio aelodau o'r gymuned i'r gangen honno.

3. **Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD**

3.1 Mae canghennau wedi eu sefydlu yn y Waun, Prestatyn, Dolgellau, Amlwch, Conwy, Caergybi ac Abermaw.

3.2 Gwneir cynnydd da wrth geisio sefydlu tair cangen arall, yn yr Wyddgrug, Llanfairfechan a'r Fflint.

3.3 Mae'r offer a'r wisg bellach yr un fath i bob cangen. Mae hyn yn sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch priodol ac effeithiol yn cael eu cynnal ar gyfer y diffoddwyr tân ifanc.

3.4 Trefnwyd dyddiadau ar gyfer y cyntaf o Ddiwrnodau Cyrhaeddiad Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc Gogledd Cymru. Mae dau bwrpas i'r digwyddiad:

1. Cydnabod y cynnydd a wnaed gan y diffoddwyr tân ifanc, a

2. Hwyluso'r cyfle i aelodau o ganghennau gwahanol ymwneud â'i gilydd, gwella sgiliau rhyngbersonol, unigol a thîm o fewn amgylchedd gystadleuol sy'n rhoi boddhad, ond eto'n hwyl.

Cynhelir y diwrnod ym Mhrifysgol Cymru, Bangor ar Fehefin 17$^{eg}$ a 18$^{fed}$ 2006.

3.5 Bydd yr aelodau'n cofio yn y papur gwybodaeth y llynedd fod y Gwasanaeth yn ymchwilio i gymhwyster ffurfiol ar gyfer y diffoddwyr tân ifanc. O'r herwydd, mae trefniadau wedi eu gwneud gyda Chymdeithas Hyfforddi Ieuenctid y Gwasanaeth Tân i hwyluso'r Dyfarniad Canolradd BTEC mewn Sgiliau Diffodd Tân Sylfaenol y medr y diffoddwyr tân ifanc weithio tuag ato tra byddant gyda'r Gymdeithas. Mae'r diffoddwyr tân ifanc yng nghanghennau Amlwch a Phrestatyn eisoes wedi dechrau gweithio tuag at y cymhwyster hwn.

4. **I'W YSTYRIED YN Y DYFODOL**

4.1 Y prif bryder sy'n wynebu'r Gymdeithas yng Ngogledd Cymru yw cynaladwyedd. Mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu'n barhaus i ymgysylltu â'r bobl ifanc yn ein cymunedau gyda'r bwriad o'u hannog a'u cefnogi i ddod yn fwy ymwybodol o'u rhan mewn cymdeithas a'u hysbrydoli i ddod yn well dinasyddion.

4.2 I lwyddo, rhaid i hyn fod yn fuddsoddiad tymor hir. Mae'r Gymdeithas yng Ngogledd Cymru yn cydnabod cefnogaeth barhaus yr Aelodau a'r Awdurdod Tân ac Achub yn sicrhau bod rhaglen y Gymdeithas yn gallu cael ei chynnal.

5. **ARGYMHELLION**

5.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.